
19^{eg} Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 22 Mai 2019
10:30am tan 11:30am
Ystafell Gyfarfod C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion

AELODAU**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AC, Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans AC, Gweinidog Cyllid a Threfnydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyngorydd Debbie Wilcox (Casnewydd)
Y Cyngorydd Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyngorydd Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyngorydd Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyngorydd Peter Fox (Sir Fynwy)
Y Cyngorydd Dyfrig Lewis Siencyn (Gwynedd)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Pennaeth Staff Comisiynydd yr Heddlu – Lee Jones, ar ran y Gwir Anrhydeddus
Alun Michael

YN BRESENNOL**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid), SWT

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Paul Griffiths – Cyngorydd Arbennig
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau
Gweithlu
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Mark Pritchard (Wrecsam)
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol

Eitem Agenda 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod ychwanegol hwn o'r Is-grŵp Cyllid yn 2019 yn rhan o'r cytundeb i gyfarfod yn fwy rheolaidd, yn enwedig yng nghyd-destun yr Adolygiad o Wariant disgwylid a chyllideb Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd pellach ym mis Gorffennaf a mis Medi a bydd amrywiaeth o weinidogion eraill yn mynychu i drafod gwahanol ffrydiau gwariant llywodraeth leol.

Eitem Agenda 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)

2. Cadarnhawyd bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.
3. Eitem Agenda 4 – Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant – ducpwyd ymlaen y drafodaeth ar heriau cyllido a chyflawni yn y dyfodol cyn y drafodaeth ar Eitem Agenda 3 – Trafodaeth ar Dai Cymdeithasol.

Eitem Agenda 4: Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant – trafodaeth ar heriau cyllido a chyflawni yn y dyfodol (Eitem Lafar)

4. Agorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y drafodaeth drwy esbonio bod y cyfarfod hwn yn gyfle da i gydweithio er mwyn ymateb i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) disgwylidig gydag un llais gan lywodraeth genedlaethol a lleol Cymru. Ailbwysleisiodd yr ymrwymiad i fod mor agored a thryloyw â phosibl, fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol yr Is-grŵp Cyllid. Amlinellodd y Gweinidog yr heriau allweddol sy'n gysylltiedig â'r ansicrwydd ynghylch p'un a fydd CSR yn digwydd eleni, a dywedodd os na fydd yn digwydd, ei bod yn debygol y bydd angen i gyllideb sylfaenol Llywodraeth Cymru dreiglo ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur p'un a fyddai hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol a negodwyd yn 2019-20, megis cyllid pensiynau athrawon a chyflogau athrawon.
5. Croesawodd y Cyngorwyr Anthony Hunt a Debbie Wilcox yr ymrwymiad parhaus i fod yn agored, a gwnaethant gytuno i ystyried y ffyrdd gorau y gallai llywodraeth leol gefnogi'r negeseuon canolog a lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) am eglurder.
6. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd y cyd-destun ariannol heriol. Er y dywedodd y Canghellor yn wreiddiol y byddai'n cynnal adolygiad o wariant tair blynedd, mae wedi dweud ers hynny na fyddai CSR yn cael ei gynnal hyd nes bod Brexit yn cael ei ddatrys.
7. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd hefyd fod cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru yn eithaf bach o gymharu â heriau'r gost o gynnal cyllid ar gyfer cyflogau athrawon, pensiynau a rhyddhad ardrethi o oddeutu £111 miliwn. Dywedodd y byddai'n pledio'r achos dros y cyllid hwn ar gyfer 2020-21 yn rhan o'r cyfarfodydd pedairochrog rheolaidd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

8. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd y broses ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun yr ansicrwydd hwn. Mae cyfarfodydd dwyochrog cychwynnol yn cael eu cynnal â Gweinidogion ar hyn o bryd. Mae pwysau ar y gronfa wrth gefn sydd ar gael eisoes wedi'u hamlygu. Gallai'r gyllideb ddrafft fod mor hwyr â mis Rhagfyr a gallai'r gyllideb derfynol fod mor hwyr â mis Mawrth. Cydnabuwyd yr anawsterau y mae hyn yn eu hachosi i'r broses pennu cyllideb llywodraeth leol a bodloni'r graddfeydd amser statudol.
9. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd ei bod yn bwriadu sicrhau bod rhywfaint o wybodaeth ar gael cyn toriad yr haf i helpu i gynllunio cyllidebau, gan gynnwys rhagolygon cynnyrch domestig gros (GDP), rhagolygon treth ddatganoledig a'r amcangyfrif gorau o'r cyllid cyffredinol a fydd ar gael ar gyfer 2020-21.
10. Ychwanegodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar grantiau penodol i wirio bod neilltuo'n briodol o hyd ac i bwysu ar gydweithwyr gweinidogol i gyhoeddi eu cynlluniau mor gynnar â phosibl.
11. Pwysleisiodd y Cyngorydd Debbie Wilcox y byddai gwybodaeth gynnar am grantiau yn ddefnyddiol iawn gan y byddai'n helpu awdurdodau i gynllunio gofynion y gweithlu a rhoi gwybod i gyflogeion am unrhyw newidiadau o fewn graddfa amser briodol.
12. Croesawodd y Cyngorydd Anthony Hunt yr ymagwedd agored, ond amlygodd yr anhawster sy'n gysylltiedig â chynllunio yn seiliedig ar y sefyllfa waethaf o ganlyniad i'r mathau o benderfyniadau y byddai angen eu gwneud. Teimlai po fwyaf drafodaethau y gellid eu cynnal rhwng CLILC a Llywodraeth Cymru yn ystod yr haf, gorau oll.
13. Derbyniodd y Cyngorydd Andrew Morgan y sefyllfa pe byddai'r gyllideb yn treiglo ymlaen, ond ni allai ddychmygu sefyllfa lle na fyddai Llywodraeth y DU yn cyllido cyflogau a phensiynau. Yn ogystal, mynegodd y disgwyliad bod grantiau fel y £37.5 miliwn ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru fel grantiau penodol ar gyfer gofal cymdeithasol a chyflogau athrawon, yn rhan o'r gyllideb sylfaenol. Dywedodd fod yr amserlen yn anodd iawn, bod rhaid i gynghorau gytuno ar gyllidebau erbyn 11 Mawrth ac y byddai angen i bapurau gael eu dosbarthu erbyn 3 Mawrth, bod angen pennu'r dreth gyngor, ac awgrymodd y gallai cyllideb hwyr arwain at adolygiad barnwrol. Gofynnodd y Cyngorydd Morgan hefyd i gyllid pwysau'r gaeaf ar gyfer gofal cymdeithasol gael ei ystyried yn ystod yr haf oherwydd bod angen dechrau cynllunio, gan ddechrau gwario ym mis Hydref / Tachwedd i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r cyllid.
14. Derbyniodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yr holl bwyntiau a wnaed a dywedodd fod yr amseru'n anghyfleus i bawb. Gobeithiai y byddai ganddi well gwybodaeth ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf a phwysleisiodd y byddai'n fuddiol cyflwyno achos yn unfrydol ar faterion penodol. Cyfeiriodd y Gweinidog at yr heriau a'r cyfleoedd i lywodraeth leol sy'n gysylltiedig â chyllid hwyr ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i danwariant sy'n dod i'r amlwg yn

Llywodraeth Cymru na ellid ei ychwanegu at ei chronfeydd wrth gefn. Gobeithiai y byddai'r pwyslais ar y cyfleoedd.

15. Roedd y Cynghorydd Peter Fox yn falch o weld Gweinidogion eraill yn yr Is-grŵp Cyllid fel y gellid rhannu a deall yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol ar draws portffolios, fel bod pwyslais ar ddarparu gwasanaethau. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi'i chyfyngu i dynnu i lawr cronfeydd refeniw wrth gefn o £125 miliwn yn ystod unrhyw un flwyddyn, a bod hyn eisoes wedi'i dybio ar gyfer pob blwyddyn gyllideb. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd y byddai'n gofyn i Lywodraeth y DU am fwy o hyblygrwydd o ran tynnu i lawr o'r gronfa wrth gefn.
16. Gofynnodd y Cynghorydd Anthony Hunt a fyddai'n fuddiol i swyddogion gyfarfod i feintoli cost y gweithlu – cytunwyd y byddai hyn yn cael ei wneud yn seiliedig ar waith a gwblhawyd eisoes yn arolwg CLILC ar gostau'r gweithlu.

Eitem Agenda 3: Trafodaeth ar dai cymdeithasol (Eitem Lafar)

17. Roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ymrwmo i gynyddu'r ddarpariaeth tai cymdeithasol cyn gynted â phosibl, a disgwyliai y gellid sicrhau'r cynnydd mwyaf pe byddai awdurdodau lleol â chyfrifon refeniw tai (HRAs) yn dechrau adeiladu'n sylweddol unwaith eto, ond ei bod yn bosibl i'r rhai heb HRAs eu hailagor hefyd. Dywedodd y byddai'r arweiniad HRA yn cael ei ailgyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, gyda chanllawiau wedi'u diweddarau ar reoli asedau a benthyca darbodus. Hoffai wybod pa ddulliau a phrosesau y byddai angen eu sefydlu, ac roedd yn arbennig o awyddus i gael safbwyntiau ar ailsefydlu HRAs a'r ffordd orau o wneud hyn. Dywedodd hefyd ei bod yn trafod y posibilrwydd o ddefnyddio cyllid trafodion ariannol i gefnogi tai cymdeithasol.
18. Cyfeiriodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at yr ymgynghoriad a fydd yn cael ei lansio'n fuan ar dai arloesol, sy'n cynnwys adeiladau modiwlwr sydd â chostau carbon is, gwell inswleiddio a gwell amodau gwaith i adeiladwyr gan eu bod yn cael eu hadeiladu oddi ar y safle. Byddai hefyd yn croesawu defnydd gwell o gadwyni cyflenwi yng Nghymru.
19. Disgrifiodd y Cynghorydd Paul Millar yr her sy'n gysylltiedig â diffyg tir ar gael i'w ddatblygu a materion yn ymwneud â darparu seilwaith. Ers i argyfwng yr hinsawdd gael ei ddatgan, credai y dylai Cymru fod yn ceisio bod yn garbon niwtral erbyn 2030, ac felly bod angen i'r canllawiau fod yn gadarn iawn ynglŷn â'r hyn i'w ddisgwyl gan ddatblygwyr.
20. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y byddai ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gael ym mis Gorffennaf a bod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mawr mewn unrhyw gynlluniau arloesol. Sylweddolai na fyddai nifer fawr o awdurdodau nad oes ganddynt HRA yn meddu ar y sgiliau priodol yn fewnol mwyach, a chredai mai'r ateb gorau i hyn

oedd cronni adnoddau, gydag ymagwedd ranbarthol neu Gymru gyfan at gaffael sgiliau.

21. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod ei gyngor yn ystyried benthycu arian i ddarparu tai cymdeithasol, gan na fyddai nifer y tai y gallai'r Cyngor eu hadeiladu ei hun yn y tymor byr i ganolog yn cyfiawnhau cynnal tîm rheoli tai. O safbwynt rheoli trysorlys, byddai'r benthyciad yn cael ei sicrhau ar ased ac roedd yr adenillion yn well na buddsoddiad banc.
22. Cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru yn chwilio am y ffyrdd gorau i awdurdodau lleol ddarparu tai cymdeithasol (yn hytrach na thai fforddiadwy) a'r ffordd orau o gynyddu effaith codi'r terfyn benthycu i'r eithaf.
23. Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn fod y sgwrs hon yn amserol gan fod Gwynedd yn ystyried sut y gallai adeiladu i lenwi bylchau yn y farchnad, er enghraifft ar gyfer pobl ifanc, gan fod rhai pryderon y gallai'r cwmnïau a ffurfiwyd i gymryd HRAs drosodd golli cysylltiad â'r egwyddorion a'r gwreiddiau cymdeithasol.
24. Cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod nifer o adolygiadau cysylltiedig â thai wedi gorffen yn ddiweddar neu ar fin gorffen yn fuan, gan gynnwys tai fforddiadwy, polisi rhent a datgarboneiddio. Byddai angen ystyried yr adroddiadau gyda'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau, o safbwynt cyllid yn ogystal â pholisi, a byddai'n croesawu unrhyw sylwadau.
25. Dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt mai un mater arwyddocaol oedd datgloi tir. Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y byddai Biliau sydd ar ddod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pŵer cymhwysedd cyffredinol a phwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol ychwanegol i awdurdodau lleol. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gwahanol ffyrdd o ddefnyddio ei thir ac roedd yn awyddus i amlygu'r holl dir sydd ym mherchenogaeth gyhoeddus fel y gellid cynllunio'n fwy strategol.

Eitem Agenda 5: Diweddariad gan y Gweinidog Cyllid a Threfnydd – materion Trethi Lleol (Eitem Lafar)

26. Dechreuodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd drwy amlygu'r berthynas well rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol o ran trethi lleol. Croesawodd y cydweithio ar brosiectau fel lansio'r ymgyrch defnyddio cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, disgowntiau ar gyfer pobl â nam meddyliol difrifol, mwy o rannu data a meincnodi.
27. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd ei bod yn awyddus i asesu effaith Credyd Cynhwysol Llywodraeth y DU ar y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor trwy'r ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar. Derbyniwyd data gan 12 awdurdod hyd yma, ond mae angen mwy o ddata i sicrhau bod yr ymchwil yn cynrychioli Cymru gyfan. Cynigiodd y Cynghorydd Wilcox ddefnyddio cyfarfod Bwrdd

Gweithredol nesaf CLILC i annog awdurdodau i gymryd rhan yn y gwaith pwysig hwn.

28. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd fod awdurdodau lleol yn amrywio o ran i ba raddau yr oedd ymgysylltiad gwleidyddol mewn penderfyniadau ynglŷn ag elfennau trethi lleol yn ôl disgrisiwn. Hoffai ychwanegu at y protocol treth gyngor fel y gallai awdurdodau fabwysiadu'r Datganiad Ariannol Safonol. Aeth ymlaen i ddweud mai un maes a oedd wedi denu sylw oedd trosglwyddo eiddo domestig o'r rhestr treth gyngor i'r rhestr trethi annomestig – er enghraifft eiddo gwyliau ar osod. Awgrymwyd bod hyn yn effeithio ar faint o dai sydd ar gael mewn rhai ardaloedd. Roedd ei swyddogion yn ymchwilio i hyn ond nid oeddent wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth hyd yma i ddangos nad yw'r mathau hyn o eiddo'n trosglwyddo'n gyfreithlon. O ran y meini prawf ar gyfer dosbarthu llety gwyliau hunanarlwyo ar osod yn annomestig, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar hyn sawl gwaith, ond os oes gan awdurdodau lleol unrhyw dystiolaeth ychwanegol byddai'n cael ei chroesawu.
29. Mynegodd y Cyngorydd Dyfrig Lewis Siencyn farn Cyngor Gwynedd, a oedd wedi penderfynu cyflwyno premiwm ail gartref, a chrybwyllodd rywfaint o ddadansoddiad yr oedd y Prif Weithredwr wedi'i gynnal yn ddiweddar. Teimlai y dylai eiddo preswyl aros yn breswyl oni bai bod cais cynllunio i newid defnydd.
30. Yn olaf, yn rhan o'i diweddariad, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd fod pryder cynyddol ynglŷn â gallu darparwyr meddalwedd i fodloni anghenion systemau treth gyngor ac ardrethi annomestig awdurdodau lleol, ac y byddai'r maes hwn yn lle da i ystyried moderneiddio ar y cyd â CLILC. Un syniad a gynigiwyd gan y Gweinidog oedd negodi'r ddarpariaeth yn ganolog yn hytrach na 22 gwaith. Amlygodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y cysylltiadau â'r system porth cynllunio, sy'n gymhleth ar hyn o bryd oherwydd bod rhaid iddi "siarad" â 22 system wahanol. Dywedodd y Cyngorydd Andrew Morgan fod angen i unrhyw ddatblygiad o'r fath gael ei ystyried o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.

Eitem Agenda 6: Unrhyw Fater Arall

31. Gofynnodd y Cyngorydd Debbie Wilcox i'r Gweinidogion roi gwybod iddi os oedd unrhyw beth yr hoffent iddo gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Gweithredol CLILC ar 24 Mai.
32. Daeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â'r cyfarfod i ben drwy ddweud pe byddai unrhyw wybodaeth well am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a chynllunio'r gyllideb, y byddai'n cael ei thrafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Os na, byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar yr ymagwedd gyda Llywodraeth y DU.